# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU [F1 A CHYD-BWYLLGORAU CORFFOREDIG] A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH[F2: PRIF GYNGHORAU]

*Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 101 Ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol

(1) Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa ffioedd mewn cysylltiad ag arolygiadau arbennig.

(2) Rhaid i brif gyngor y cynhelir arolygiad arbennig mewn cysylltiad ag ef, yn ddarostyngedig i is-adran (3), dalu i Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â chynllun ar gyfer codi ffioedd a lunnir o dan adran 24 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), y ffi sy'n daladwy o dan y raddfa a ragnodir o dan is-adran (1).

(3) Os yw'n ymddangos i Swyddfa Archwilio Cymru bod y gwaith a oedd yn gysylltiedig ag arolygiad arbennig penodol yn sylweddol fwy neu'n sylweddol lai na'r hyn a ragwelwyd gan y raddfa a ragnodir o dan is-adran (1), caiff Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi sy'n fwy neu'n llai na'r hyn a grybwyllir yn is-adran (2).

(4) Ond ni chaiff ffi a godir o dan yr adran hon fod yn fwy na chost lawn cynnal y gweithgaredd y mae'n ymwneud ag ef.

***Statws*** *Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 101. (See end of Document for details)*

(5) Cyn rhagnodi graddfa ffioedd o dan yr adran hon rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghori ag—

(a) Gweinidogion Cymru, a

(b) unrhyw bersonau sy'n cynrychioli prif gynghorau y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Rhn. 6 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(1)**

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn Rhn. 6 Pnd. 1 title wedi eu mewnosod (15.7.2022) gan Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/797), rhlau. 1(2), **6(2)**

**Statws**
Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 101.